

Gweithgareddau Ysgrifennu

Adolygiad

Yr yr uned hon ceir taflenni cymorth ar sut i fynd ati i adolygu nofel, llyfr ffeithiol, cerdd a drama. Yn ogystal ag hyn, mae yma daflenni hunanasesu i gyd-fynd â'r pedwar math o adolygiad.




Gwefan ddefnyddiol:

www.cynnal.co.uk/llythrennedd/Plant/silff/archifllmis.htm

CYMRAEG yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio Ysgrifennu

Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio



Ysgrifennu

Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ddefnyddio nodweddion y ffurfiau a ddewisir gan addasu eu harddull yn unol â'r gynulleidfa a'r pwrpas
2. cysylltu brawddegau a chymalau yn ddealladwy ac yn drefnus; defnyddio cystrawennau amrywiol Cymraeg a pharagraffu'n effeithiol
3. defnyddio atalnodi i gyfleu ystyr priodol gan gynnwys:
 - atalnod
 - atalnod llawn
 - gofynnod
 - dyfynnod
 - ebychnod
 - collnod
 - acen grom
 - pwyntiau bwled
4. dewis a defnyddio geirfa briodol, datblygu iaith goeth, rywiog a'i defnyddio i greu effeithiau
5. meithrin cywirdeb trwy:
 - ddefnyddio ffurfiau berfol
 - negyddu brawddegau
 - defnyddio arddodiaid

- treiglo
- defnyddio cenedl enwau
- gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg
- gwahaniaethu rhwng 'i', 'u' ac 'y'
- osgoi geiriau, ymadroddion a phatrymau Saesneg a Seisnig diangen

6. defnyddio ystod o strategaethau i'w galluogi i sillafu'n gywir; gwirio sillafu trwy ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys TGCh 

7. defnyddio geirfa a therminoleg briodol wrth ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill

8. drafftio a gwella eu gwaith gan ddefnyddio TGCh fel bo'r angen i:
 - baratoi a chynllunio
 - drafftio ac ailddrafftio'r cynnwys a'r iaith
 - prawf-ddarllen
 - paratoi copi terfynol

9. cyflwyno'u gwaith yn briodol gan:
 - ddatblygu llawysgrifen ddarllenadwy, yn unol â chonfensiwn
 - defnyddio dulliau cyflwyno a gosod pwrpasol, gan gynnwys TGCh.

Ystod

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau gan gynnwys:
 - difyrru
 - cyflwyno gwybodaeth
 - mynegi barn
 - cyfleu teimladau a syniadau
2. ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd real a dychmygus, e.e. yr hunan, cyd-ddisgyblion, disgyblion iau, athrawon, teulu a ffrindiau

3. ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau, e.e. stori, cerdd, sgript, taflen, poster, hysbyseb, adroddiad, dyddiadur, nodiadau, testun electronig, portread, cyfarwyddiadau, holiadur, adolygiad, erthygl, araith

4. ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth o symbyliadau clywedol, gweledol a chlyweledol, e.e. stori, cerdd, eu diddordebau, eu gweithgareddau a'u profiadau yn y dosbarth a thu hwnt, rhaglen deledu, cerflun 

ysgrifennu Adolygiad

Taflen Gymorth

AMRYWIO DECHRAU'R BRAWDDEGAU

Darllenais i...

Aethon ni / Es i ...

Gwelais i ...

Clywais i...

Yn gyntaf ...

I ddilyn ...

Daeth ...

Un o brif ...

Nofel am ... / Drama am / Cerdd
am ...

..... oedd fy hoff ran.

I gloi ...

GEIRFA DDEFNYDDIOL

digwyddiadau plot arddull

cymeriadau pennill llinell odl

prif gymeriad ailadrodd thema

hoff gymeriad nofel llyfr

cerdd gwybodaeth lliwgar

hoff ran / ddigwyddiad golygfa

cas ran / ddigwyddiad perthynas

GEIRFA MYNEGI BARN

Yn fy marn i ...

Credaf mai ... oedd y rhan ...


Fy hoff ... oedd ...

Rydw i'n hoffi ... / Dydw i ddim yn hoffi...

O bosibl ...

Ar un llaw roedd ... ond ar y llaw arall roedd ...

Rwy'n credu / teimlo / meddwl ...



Adolygu nofel

Enghraifft o dasg



Teitl: _____


Awdur: _____


Beth sy'n digwydd?

Beth fedrwch chi ddweud am y
cymeriadau?

Beth yw eich barn chi am y llyfr?

Sawl seren fydddech chi yn ei rhoi i'r
llyfr?





Adolygu nofel

Enghraifft o dasg



Teitl y llyfr yw ...

a'r awdur yw ...


Rydw i'n hoffi'r llyfr hwn am sawl rheswm. Yn gyntaf

Yn ail

Yn olaf

Serch hynny, doeddwn i ddim yn hoffi

I gloi, yn fy marn i



Adolygu nofel

Enghraifft o dasg



Pwy oedd y cymeriadau?


Disgrifiwch y prif gymeriad.

Disgrifiwch un digwyddiad cyffrous.

Disgrifiwch y brif neges.

Beth yw eich barn chi?

A fydddech chi'n annog eraill i ddarllen y nofel? Pwy? Pam?



Cynllunio adolygiad

Paragraff 1: cyflwyniad

- ♦ teitl
- ♦ awdur
- ♦ cyfres
- ♦ clawr a broliant
- ♦ brawddeg am y cynnwys

Paragraff 2: cynnwys

- ♦ sôn ychydig am gynnwys y nofel
- ♦ rhoi ychydig o wybodaeth am y cymeriadau
- ♦ peidio â dweud gormod am y plot
- ♦ peidio â sôn am y diwedd glo

Paragraff 3: prif gymeriad

- ♦ pwy yw'r prif gymeriad?
- ♦ beth yw ei ran yn y nofel?
- ♦ beth yw ei berthynas â'r cymeriadau eraill?



Paragraff clo


- ♦ annog eraill i ddarllen / dim annog eraill i ddarllen

Paragraff 5: mynegi barn

- ♦ mynegi barn am y plot / cymeriadau / arddull a.y.y.b.

Paragraff 4: digwyddiadau

- ♦ sôn am unrhyw beth arbennig / diflas wnaeth ddigwydd
- ♦ sôn am drobwynt yn y stori



Adolygu nofel

Paragraff 1: cyflwyniad


Paragraff clo

Paragraff 2: cynnwys

Paragraff 5: mynegi barn

Paragraff 3: prif gymeriad


Paragraff 4: digwyddiadau



Adolygu nofel

Ydy'r atalnodi'n gywir?	
Ydych chi wedi amrywio dechrau'r brawddegau?	
Ydych chi wedi crynhoi prif bwyntiau'r nofel?	
Ydych chi wedi disgrifio'r cymeriadau drwy sôn am eu perthynas gyda'i gilydd?	
Ydych chi wedi dweud beth yw prif neges y nofel yn eich adolygiad?	
Ydych chi wedi mynegi eich barn yn glir?	

Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn:



Enghraifft o dâs



Adolygu llyfr ffeithiol

Teitl: _____



Awdur: _____


Beth yw cynnwys y llyfr?

Sut mae'r tudalennau'n edrych?

Beth yw eich barn chi am y llyfr?

A oedd y llyfr yn hawdd i'w ddefnyddio?





Adolygu llyfr ffeithiol

Teitl y llyfr yw ...

a'r awdur yw ...

Cyn i mi ddarllen y llyfr hwn roeddwn yn meddwl

Wrth ddarllen y llyfr hwn dysgais

Hefyd, fe ddysgais


Roeddwn i'n hoffi

Doeddwn i ddim yn hoffi

I gloi, yn fy marn i



Cynllunio adolygiad o lyfr ffeithiol



Paragraff 1: cyflwyniad

- ♦ teitl
- ♦ awdur
- ♦ cyfres
- ♦ clawr a broliant
- ♦ brawddeg am y cynnwys

Paragraff 2: cynnwys

- ♦ sôn ychydig am y cynnwys
- ♦ tynnu sylw at nodweddion arbennig, e.e. mynegai / lluniau / teitlau / is-deitlau, a.y.y.b.



Paragraff clo


- ♦ annog eraill i ddarllen / dim annog eraill i ddarllen

Paragraff 4: mynegi barn

- ♦ mynegi barn am y llyfr a'r ffordd mae wedi ei osod
- ♦ A yw'n hawdd i'w ddefnyddio?

Paragraff 3: ffeithiau diddorol

- ♦ rhannu unrhyw bethau newydd a diddorol a ddysgwyd



Adolygu llyfr ffeithiol


Paragraff 1: cyflwyniad

Paragraff clo

Paragraff 2: cynnwys

Paragraff 4: mynegi barn


Paragraff 3: ffeithiau diddorol



Adolygu llyfr ffeithiol

Ydy'r atalnodi'n gywir?	
Ydych chi wedi amrywio dechrau'r brawddegau?	
Ydych chi wedi sôn am gynnwys y llyfr?	
Ydych chi wedi sôn am yr arddull? e.e. lluniau, diagramau, teitlau, gwybodaeth, a.y.y.b.	
Ydych chi wedi cynnwys ffaith / ffeithiau newydd a ddysgoch chi?	
Ydych chi wedi mynegi eich barn yn glir?	

Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn:



Adolygu cerdd

Enghraifft o dasg



Teitl: _____

Bardd: _____

Arddull:

Llinellau:

Penillion:

Odl:

Cynnwys:

Beth sy'n digwydd yn y gerdd?

Am beth mae'r gerdd yn sôn?


Beth yw eich barn chi am y gerdd?


Hoff air:

Hoff linell:

Barn:

Sawl seren fydddech chi yn ei rhoi i'r gerdd?






Adolygu cerdd

Dewiswch eich hoff gerdd ac ysgrifennwch adolygiad ohoni.

Cofiwch gynnwys:

- y teitl ac enw'r bardd;
- y math o gerdd;
- thema'r gerdd—am beth mae'n sôn?
- arddull: llinellau / penillion / odl / cyflythrennu / cymariaethau / delweddau / rhythm / ailadrodd, a.y.y.b.
- eich barn bersonol—gallwch sôn am eich hoff air / hoff linell / hoff ran gan roi rhesymau i gyfiawnhau eich dewis



Cymharu dwy gerdd

Enghraifft o dasg




Teitl a bardd:
Misoedd y Flwyddyn
(T Llew Jones)

Teitl a bardd:
Blwyddyn o Liwiau
(Meirion MacIntyre Huws)

Pa mor debyg ydyn nhw?

Pa mor wahanol ydyn nhw?

Mynegi barn



Cymharu dwy gerdd

Enghraifft o dasg



Teitl a bardd:

Traeth y Pigyn
(T Llew Jones)


Teitl a bardd:

Cwm Alltcafafan
(T Llew Jones)

Pa mor debyg ydyn nhw?

Pa mor wahanol ydyn nhw?


Mynegi barn



Adolygu cerdd

Ydy'r atalnodi'n gywir?	
Ydych chi wedi amrywio dechrau'r brawddegau?	
Ydych chi wedi sôn am gynnwys y gerdd?	
Ydych chi wedi sôn am arddull y gerdd? e.e. llinellau / penillion / odl / cyflythrennu a.y.y.b.	
Ydych chi wedi dweud beth yw prif neges y gerdd yn eich adolygiad?	
Ydych chi wedi mynegi eich barn yn glir?	

Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn:



Adolygu drama

Enghraifft o dasg



Teitl: _____

Cwmni drama: _____

Cefndir:

Ble?

Pryd?

Pwy?

Beth oedd y thema?

Cynnwys:

Beth oedd yn digwydd yn y ddrama?

Pwy oedd y cymeriadau?


Mynegi barn:


Hoff ran:

Cas ran:

Barn:

Sawl seren fydddech chi yn ei rhoi i'r ddrama?





Adolygu drama

Enghraifft o dastg



Ble? Pryd? Beth? Pwy? Pam?

Rhowch ychydig o wybodaeth am y cynnwys.

Rhowch ychydig o wybodaeth am y cymeriadau a'u perthynas gyda'i gilydd.

Disgrifiwch un olygfa wnaeth argraff arnoch.


Beth oedd y brif neges?

Beth yw eich barn chi?

A fydddech chi'n annog eraill i fynd i weld y ddrama? Pwy? Pam?



Cynllunio adolygiad o ddrama



Paragraff 1: cyflwyniad


- ♦ Pwy?
- ♦ Ble?
- ♦ Pryd?
- ♦ Beth?
- ♦ Pam?

Paragraff 2: cynnwys

- ♦ sôn ychydig am gynnwys y ddrama
- ♦ rhoi ychydig o wybodaeth am y cymeriadau
- ♦ peidio â dweud gormod am y plot
- ♦ peidio â sôn am y diwedd glo

Paragraff 3: prif gymeriad

- ♦ pwy yw'r prif gymeriad?
- ♦ beth yw ei rôl yn y ddrama?
- ♦ beth yw ei berthynas â'r cymeriadau eraill?



Paragraff clo


- ♦ A fydddech chi'n annog rhywun arall i fynd i weld y ddrama? Pam? Pwy?

Paragraff 5: mynegi barn

- ♦ mynegi barn am y plot / cymeriadau / arddull a.y.y.b.
- ♦ disgrifio rhan a wnaeth adael argraff

Paragraff 4: digwyddiadau

- ♦ sôn am unrhyw beth arbennig / diflas wnaeth ddigwydd
- ♦ sôn am drobwynt yn y ddrama



Adolygu drama

Paragraff 1: cyflwyniad


Paragraff clo

Paragraff 2: cynnwys

Paragraff 5: mynegi barn

Paragraff 3: prif gymeriad

Paragraff 4: digwyddiadau



Adolygu drama

Ydy'r atalnodi'n gywir?

Ydych chi wedi amrywio dechrau'r brawddegau?

Ydych chi wedi crynhoi prif ddigwyddiadau'r ddrama?

Ydych chi wedi disgrifio'r cymeriadau drwy sôn am eu perthynas gyda'i gilydd?

Ydych chi wedi dweud beth oedd prif neges y ddrama yn eich adolygiad?

Ydych chi wedi mynegi eich barn yn glir?

Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn: